# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canolfan Gofal Swn-y-Môr**

**Canolfan Gofal Swn-y-Môr**
**Scarlet Avenue**
**Port Talbot**
**SA12 7PH**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Canolfan Gofal Swn-y-Môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Speed 9395 Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 91 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu bwyswch yma i ychwanegu testun |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Canolfan Gofal Swn-y-Môr wedi'i lleoli mewn adeilad pwrpasol mewn ardal breswyl yn Sandfields, Port Talbot. Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a ddarperir yng Nghanolfan Gofal Swn-y-Môr. Maent yn byw mewn amgylchedd cartrefol sy'n gynnes, yn lân ac yn addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae gwybodaeth ar gael i'r staff er mwyn iddynt ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae gan y bobl gynlluniau personol manwl ar waith ac mae'r rhain wedi'u hysgrifennu â nodau ac amserlenni clir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol ar waith ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae digon o staff ar gael ac mae ganddynt gymysgedd sgiliau i ddarparu cymorth digonol i'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu cefnogi a'u datblygu'n briodol. Fodd bynnag, mae angen diweddaru hyfforddiant staff. Mae sesiynau goruchwylio ac arfarnu'r staff yn bodloni gofynion rheoliadol. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, yn barchus ac yn ofalgar. Mae cyfarpar diogelwch ar waith a chaiff atgyfeiriadau iechyd eu gwneud pan fo angen er mwyn hybu iechyd a lles y bobl. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau gartref ac yn y gymuned.

Mae'r darparwr gwasanaeth wedi datblygu systemau i'w galluogi i gasglu barn y bobl ac mae ganddo systemau i ddatblygu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r tîm rheoli wedi rhoi gwiriadau a phrosesau ar waith i adolygu'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer monitro iechyd y croen.

## Llesiant

Dywed y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yng Nghanolfan Gofal Swn-y-Môr. Roedd y sylwadau'n cynnwys "*it's great living here, we have a lovely time" and "it's like home from home*." Gwelsom fod y staff gofal yn garedig ac yn ymgysylltu â'r bobl, yn cymryd amser i siarad, gan greu synnwyr o hwyl. Siaradodd yr ymwelwyr â'r cartref yn gadarnhaol am y gwasanaeth a'r staff.

Mae gwybodaeth dda ar gael i'r staff er mwyn iddynt ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cyd-dynnu'n dda â'r staff a gwnaethant sylwadau "*The staff know what I want."* Nododd perthnasau *"The service is really good," "Amazing care, the staff are fantastic"* ac *"I'm quite impressed."* Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cynnig dewisiadau i wneud penderfyniadau bob dydd. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod yn siarad yn rheolaidd â'r bobl sy'n byw yn y cartref a'u teuluoedd am yr hyn sy'n bwysig a'r ffordd orau o'u cefnogi. Cefnogir hyn yn y cofnodion a welwyd gennym ni.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae gan Ganolfan Gofal Swn-y-Môr bolisi diogelu cadarn ar waith ac mae staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae gan y Rheolwr Gwasanaeth ddealltwriaeth dda o'r gofynion cyfreithiol ac mae'n deall pryd mae angen gwneud atgyfeiriad diogelu i'r Awdurdod Lleol.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir yn bennaf. Mae'r cofnodion yn dangos bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud at amrywiaeth o'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol megis seiciatryddion a nyrsys cymunedol. Cadarnheir hyn gan sylwadau gan y gweithwyr proffesiynol a fu'n ymweld a ddywedodd wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal yng Nghanolfan Gofal Swn-y-Môr. Fodd bynnag, mae angen gwelliant er mwyn sicrhau bod cywirdeb y croen yn cael ei fonitro.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am eu gwneud. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael sy'n ystyrlon i'r bobl. Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom weithgareddau a oedd yn cael eu hwyluso gan gydlynydd gweithgareddau a gefnogir gan y gweithwyr gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau megis Crefftau, Bingo, teithiau siopa, mynychu gŵyl fwyd a diod leol a choroni'r Brenin. Dywedodd y perthnasau wrthym y caiff yr aelod o'u teulu ei annog i gadw'n egnïol a gwneud cymaint ag y gall drosto'i hun. Adlewyrchir hyn yng nghofnodion y bobl a gwelwyd tystiolaeth ffotograffig o amgylch y cartref.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas, sydd ar y cyfan yn cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eitemau personol o'u dewis ac wedi'u dodrefnu'n addas. Mae ganddynt gyfleusterau sy'n annog eu hannibyniaeth ac yn eu galluogi i gael

amser preifat. Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda a chaiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau pan fo angen. Mae'r amgylchedd yn rhydd o annibendod a chaiff peryglon eu lleihau cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl.

Mae'r broses recriwtio staff yn ddiogel gan fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cwblhau cyn i gyflogaeth ddechrau. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn pennu a yw unigolyn yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae angen adolygu lefelau staffio a hyfforddiant a gweithredu ar y canlyniadau.

## Gofal a Chymorth

Mae angen gwella'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl. Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau gofal, a oedd yn cynnwys asesiadau cychwynnol a chynlluniau personol a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae system cynllunio gofal ar waith sy’n darparu cynlluniau personol ar gyfer pob agwedd ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol unigolion. Mae gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael ond byddai'n fuddiol iddi gael ei hatgyfnerthu, a dylid gwneud atgyfeiriadau am gyngor a chymorth proffesiynol mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yn ôl yr angen. Fodd bynnag, gwnaethom drafod â'r rheolwr fod angen sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro iechyd y croen, y caiff dogfennaeth ei chwblhau'n gyson a bod gwybodaeth gywir ar gael i'r staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am eu gwneud. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael sy'n ystyrlon i'r bobl. Roedd tystiolaeth ffotograffig a dogfennaeth ysgrifenedig yn ogystal ag arsylwadau ar bobl yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Ar adeg ein hymweliad, gwelsom ddau grŵp mawr yn mynd allan am bryd tri chwrs mewn bwyty lleol. Mae gweithgareddau'n cynnwys celf a chrefft, sesiynau peintio a grŵp ymarfer corff. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn gallu manteisio ar gyfleusterau cymunedol lleol a diddanwyr.

Mae amseroedd bwyd yn brofiad cadarnhaol a, lle y bo angen, caiff unigolion eu cefnogi'n sensitif i fwyta ac yfed. Mae dewisiadau bwyd a diod iach ar gael ac yn cael eu hyrwyddo. Roedd yr amser bwyd y gwnaethom arsylwi arno yn helpu i wella rhyngweithio cymdeithasol, meithrin ymdeimlad o gymuned a chynyddu cymeriant maethol. Fodd bynnag, byddai'r profiad wedi'i wella pe bai'r fwydlen wedi'i harddangos er mwyn i'r bobl allu ei gweld a gwneud eu dewisiadau. Roedd y byrddau bwyta wedi'u gosod ac ystyriwyd bod yr amser bwyd yn brofiad cymdeithasol pleserus.

At ei gilydd, mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Ceir polisi a gweithdrefn meddyginiaeth priodol a chwblheir archwiliadau rheolaidd gan uwch-aelodau o'r staff. Mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth yn gywir. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei chadw mewn cwpwrdd diogel dan glo mewn ystafell feddyginiaeth. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, gwelsom fod un ystafell feddyginiaeth heb ei chloi. Gwelsom hefyd fod tymheredd yr ystafell feddyginiaeth honno yn uwch na'r lefel a argymhellir. Gwnaethom drafod y mater hwn â'r rheolwr, a drefnodd ar unwaith i beiriannydd ddod i osod system aerdymheru yn yr ystafelloedd hyn. Trefnodd hefyd i gloeon bysellbad gael eu gosod er mwyn sicrhau diogelwch yr ystafelloedd hyn.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac mae'n darparu ystafelloedd sengl en-suite gyda sawl man cymunedol i'r bobl gael mynediad iddynt. Mae coridorau'n caniatáu i'r bobl symud o gwmpas yn ddiogel gyda mannau eistedd i eistedd a siarad â'i gilydd. Mae ardaloedd cymunedol yn fawr ac yn caniatáu mynediad i'r bobl sydd angen cadeiriau arbenigol neu offer symud a thrin. Mae'r staff yn helpu'r bobl i fynd allan i'r ardd ar y llawr gwaelod pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae'r cartref wedi'i leoli ar bromenâd lleol sy'n hygyrch i'r bobl.

Mae system ar waith ar gyfer monitro ac archwilio, sy'n cefnogi amserlen cynnal a chadw wedi'i chynllunio a rhaglen adnewyddu ar gyfer adeiledd ac addurniadau'r safle, a reolir gan y staff cynnal a chadw dan arweiniad yr Unigolyn Cyfrifol. Roedd y sampl o ystafelloedd gwely a welwyd yn cynnwys cyfleusterau a chyfarpar a oedd yn addas ar gyfer yr unigolion.

Mae mesurau ar waith i sicrhau y caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw. Mae trefniadau ar waith i oruchwylio iechyd a diogelwch a chynhelir archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos y caiff cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel. Cedwir cofnodion personol y bobl yn ddiogel, a chaiff mynediad i'r cartref ei fonitro gan y staff er mwyn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl.

Mae systemau golchi dillad priodol ar waith ac mae'r holl gyfarpar golchi dillad yn gweithio. Mae lle storio trefnus ar gael ar gyfer gwastraff cartref a biniau gwastraff clinigol. Roedd y trefniadau ar gyfer storio sylweddau a allai achosi niwed yn ddigonol oherwydd gwelsom fod deunyddiau a ddefnyddir i lanhau yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo priodol.

Mae polisïau, gweithdrefnau a'r defnydd o arferion hylan ar waith er mwyn lleihau'r risg o haint. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth o reoli heintiau a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE). Mae'r cartref yn lân ac yn daclus

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r darparwr gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ar waith, fel systemau ar gyfer asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu er mwyn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Darperir y gwasanaeth yn unol ag amcanion y Datganiad o Ddiben, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu diweddaru gan amlaf. Gwnaethom drafod â'r rheolwr yr angen i sicrhau y caiff yr holl bolisïau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Gall y bobl fod yn sicr bod darparwr y gwasanaeth a'r tîm rheoli yn y cartref yn monitro ansawdd y gwasanaeth a gânt. Gwnaethom edrych ar yr adroddiad monitro ansawdd diweddaraf, a oedd yn cynnwys adborth y bobl o'r ymgynghoriad, ac roedd argymhellion ar gyfer gwelliannau wedi'u cynnwys a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom drafod â'r rheolwr yr angen i sicrhau y caiff adroddiadau ansawdd eu llunio mor aml ag sy'n ofynnol. Gwelsom dystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth a bod rheolwr y gwasanaeth yn cynnal system sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr y darperir gofal o safon. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau chwarterol â'r cartref er mwyn monitro sicrwydd ansawdd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni fod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol er mwyn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym am fuddsoddiad megis *“Continued rental of Minibus for maintaining independence and links in the community; Increased activities budget to promote fulfilled lives; nurse call system upgrading.”*

Mae digon o staff ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl a gofalu amdanynt yn ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod tîm sefydlog a chyson ar waith a bod cymysgedd o staff profiadol a newydd ar gael, a gwelwyd hyn yn ystod ein harolygiad. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym “*The staff are there when I need them*” ond nododd perthnasau “*there are not enough staff around when I visit”* a dywedodd unigolyn arall wrthym “*They need more staff*.” Ategwyd hyn gan sylwadau gan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld, a ddywedodd, “*I think the staff numbers need to be increased*” a “*Staff levels need to be improved, there are occasions when staff sickness absences are not covered.”* Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr, a gytunodd i adolygu'r mater hwn. Mae gwelliant wedi'i wneud o ran recriwtio staff a chaiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau cyn i staff ddechrau eu cyflogaeth, fel gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, mae angen adolygu a chryfhau hanes gwaith a geirdaon staff.

Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi a datblygu'r staff drwy sesiynau goruchwylio ac arfarnu yn ddigonol ac wedi gwella. Mae angen adolygu a diweddaru hyfforddiant staff. Yn benodol, hyfforddiant tân ymarferol, hyfforddiant wardeiniaid tân a hyfforddiant ar symud a chodi a

chario. Dywedodd y rheolwr wrthym fod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol sy'n ofynnol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Nid oedd cofnodion Iechyd y Croen yn cael eu cwblhau'n gyson. Dylid sicrhau y caiff y gwiriadau hyn eu cwblhau ac y caiff cofnodion eu cwblhau'n gyson. | Newydd |
| 35 | Ni chaiff gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cadw'n gyson yn ffeiliau personél y staff.  Ni chaiff ceisiadau adnewyddu eu prosesu bob tair blynedd. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/07/2023